COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 5ed o HYDREF 2015 YN FESTRI CAPEL MOREIA MEINCIAU AM 7.00.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair),Margaret Rees, Ian Evans, Tyssul Evans,Linda Williams,Richard Thomas,Heddwyn Jones,Alan Lewis a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Meic Bowen,Geoff Hewitt,Aled Williams ac Ellis Jenkins

Materion Personol

1243 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1244 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 14/09/2015 fel rhai cywir.

1245 Materion yn codi.

Tud. 3 Cofnod Rhif 1241 a 1242 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y mater yn nwylo'r Cyngor Sir a'r Heddlu.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1246 Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2015 -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1247 Dyfroedd Byw Pontnewydd - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1248 Bethel Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1249 Clwb Cyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £400.

Cynghorwyr Linda Williams ac Alan Lewis yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1250 Moreia Meinciau – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

Linda ac Alan yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1251 Meinciau Sports and Recreation Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

1252 Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1253 Shelter Cymru - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1254 Meinciau Sports Short Mat Bowls - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1255 Carmarthen & District Youth Opera - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1256 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch - Llythyr yn diolch am y rhodd o Gronfa Ffoslas.

1257 Macmillan Cancer Support - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1258 Sioe Llandyfaelog – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1259 Cyngor Sir Gar – Fforwm Cyswllt Sirol – Rhagfyr 2015 – Nodwyd y llythyr.

1260 Cyngor Sir Gar – Trosglwyddo Asedau- Rhybudd Mannau Agored Cyhoeddus. – Nodwyd y llythyr.

1261 Swyddfa Archwilio Cymru – Trefniadau Archwilio Allanol – Ffurflenni Blynyddol 2015-16,2016-17,2018-19 - Nodwyd y Llythyr.

1262 Bwrdd Iechyd Hywel Dda - Grŵp Prosiect Iechyd Meddwl- Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

1263

Ceisiadau Cynllunio:

- Zoe Burton - Adeilad Amlbwrpas Amaethyddol - Tir ar B4309,Meinciau - Gofyn am fwy o fanylion oddiwrth y Cyngor Sir.
- Mr a Mrs E Jones – Fferm Cwm Eynon,Pedair Heol – Newid i Adeilad Bwyd Anifeiliaid – **Gwrthwynebiad ar sail bod yr heol yn gul a'r Groesffordd yn anaddas i Gerbydau trwm.- Mae'r Cais yn dod o flaen Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir ar 08/10/15.**

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1264 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Medi 2015.

Adroddiad Ariannol Misol

1265 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Medi)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Medi)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £97.52 (Mis Medi)
ch) HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Medi)
d) Morgan & Morgan - Amlenni - £14.99
dd) Stampiau - £14.04
e) Justin Gravell – Gwaith o amgylch y Plwyf - £1190.00
f) Tyssul Evans- Chwynladdwr - £42.84

Materion Cynghorwyr

1266 Linda

- Angen trashio ar y llwybr rhwng Heol Bancyroffis a Heol Mansant.

1267 Richard

- Arwyddion Ffordd i Landyfaelog a Llangyndeyrn ym Mhontantwn- Cysylltu eto a John McAvoy o'r Cyngor Sir.
- Gofyn i Alan Jones (Star Forge) i ail wneud Drws y Ffynnon yng Nghrwbin mor gynted ag sydd bosibl,

1268 Ian Torri pen y Coed Nadolig yng Ngharwe.

1269 Alan Sbwriel wrth fynediad Cwar Blaenyfan
Cysylltu â Hugh Towns o'r Cyngor Sir ynglŷn â sefyllfa bresennol Cwar Blaenyfan.

Cyfarfod nesaf:- 2 o Dachwedd 2015 yn Neuadd Carwe am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……